**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2002 |
| **Amser:** | 2.00 hyd 5.15 pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

## YMATEB Y GWEINIDOG DROS YR AMGYLCHEDD I ARGYMHELLION PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH YN YR ADRODDIAD AR YR YMCHWILIAD I SAFLE TIRLENWI NANTYGWYDDON

**17 Gorffennaf 2002**

Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 29 Mai cytunais gydlynu ymateb i nodi'r camau a gymerwyd gan y cyrff cyfrifol mewn ymateb i Adroddiad y Pwyllgor ar Nantygwyddon.

Amgeir crynodeb o'r camau a gymerwyd. Rwy'n ddiolchgar iawn i Amgen Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf am ddarparu'r wybodaeth berthnasol.

**Sue Essex**

| | | |
|---|---|---|
| **1** - dylid rhoi'r gorau i waredu gwastraff domestig yn Nantygwyddon (16.1) | RhCT | **Mae RhCT yn adrodd fel a ganlyn :**<br><br>• "Ychydig amser yn ôl gwnaeth y Cyngor gymeradwyo Strategaeth Wastraff newydd a Chynllun Gweithredu cysylltiedig, ac mae bellach yn eu rhoi ar waith. Golygai roi'r gorau i Waredu Gwastraff yn Nantygwyddon. Mewn gwirionedd, rhoddwyd y gorau i Waredu Gwastraff ar y safle ym mis Rhagfyr 2001, yn fuan wedi i Mr Purchon wneud sylwadau ar lafar yn y cyfarfod cyhoeddus yn Nhreorci." |
| **2 – pwynt bwled 1af** :<br><br>dylai ardal cam 1 gael ei gwblhau'n gyflym, gan greu lefelau gorffenedig addas er mwyn sicrhau tirffurf cadarn, sefydlog a chap sy'n weddol anhydraidd (16.2) | Amgen Rhondda a RhCT | **Mae Amgen Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br><br>• "Cwblhawyd cam 1 ac mae cap dros dro wedi ei gosod yn ei lle. Bydd cap parhaol yn cael ei gosod yn unol â chynllun adfer y safle sydd wrthi'n cael ei lunio gan y carfannau allweddol, sydd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned leol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol RhCT ac Amgen Rhondda Limited."<br><br>**Mae RhCT yn adrodd fel a ganlyn :**<br><br>• "Mae'r Cyngor wrthi'n trafod â'r holl grwpiau perthnasol er mwyn archwilio'n drylwyr beth yn union fydd effeithiau cau Nantygwyddon a'r gwaith adfer. Cynhaliwyd trafodaethau â Swyddogion y Cynulliad ynghylch yr Astudiaeth Sefydlogrwydd y maent yn ei gaffael er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn gydnaws â'n hystyriaethau ni. Cyflwynwyd ceisiadau am gyllid i Weinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd i'n helpu i ddatblygu'r cynllun i gau'r gwaith, ond yn ofer." |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **2 – 2il bwynt bwled**<br><br>dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gomisiynu astudiaeth awdurdodol ar sefydlogrwydd Nantygwyddon (16.10). | **Llywodraeth Cynulliad Cymru**<br><br>**CAMAU I'W CYMRYD: E3/2**<br><br>&NM2 | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br><br>• Mae Diogelu'r Amgylchedd (EnvP) wedi trafod y gwaith hwn â RhCT, Asiantaeth yr Amgylchedd ac AMGEN. Maent oll wedi cytuno bod gofyn i hyn gydlynu gyda materion perthnasol eraill sydd yn dod o dan gyfrifoldebau asiantaethau eraill, yn arbennig y gwaith o adfer y safle.<br><br>• Mae EnvP am gyfarfod â RANT er mwyn sicrhau bod eu pryderon yn cael eu hystyried wrth gomisynu'r gwaith. |

| | | |
|---|---|---|
| **3 – Pwynt bwled 1af** :<br><br>dylid dyfeisio system i reoli nwyon tirlenwi, ei rhoi ar waith, ei monitro a'i hadolygu'n rheolaidd. Dylai hyn gynnwys cofnodi tymheredd y ffagliadau mewn amser real a chofnodi am faint o amser y mae nwyon yn bresennol, a theclynnau i fonitro a ydynt yn hylosgi'n llwyr (16.3) | Amgen Rhondda ac<br><br>Asiantaeth Amgylchedd Cymru (EAW) | **Mae Amgen Cymru ac Asiantaeth Amgylchedd Cymru (EAW) yn adrodd fel a ganlyn :**<br><br>• "Mae Amgen Cymru o'r farn bod yr argymhelliad hwn wedi ei fodloni ers amser. Mae gwaith ychwnaegol yn cael ei wneud ar hyn o bryd i'w wneud yn haws i bobl gael gweld y data monitro sy'n cael ei gynhyrchu ar y safle.<br><br>• Mae EAW yn adrodd bod rhan gyntaf yr argymhelliad eisoes wedi ei gyflawni, h.y mae system rheoli nwyon tirlenwi wedi cael ei dyfeisio, ei rhoi ar waith ac mae'n cael ei hadolygu'n rheolaidd. Gwnaeth Amgen Rhondda Ltd gynnal adolygiad a arweiniodd at osod system ffagliadau newydd ym mis Awst 2001, a dyma'r arfer gorau ar hyn o bryd. Mae EAW yn parhau i weithio ar elfennau eraill yr argymhelliad hwn, ac ar ba mor ymarferol yw darparu cofnod amser real o baramedrau hylosgiadau a sicrhau bod y cofnodion mewn fformat sy'n hawdd i'r bobl leol gael gafael arnynt a'u deall.<br><br>• Mae EAW yn adrodd y cafodd y materion hyn eu datblygu yn y modd a ganlyn:<br><br>(i) Cyhoeddodd EAW drwydded rheoli gwastraff ddiwygiedig ar 18 Ionawr 2002 sy'n cynnwys gofynion ychwanegol o ran monitro hylosgedd nwyon tirlenwi. Hefyd, mae EAW yn adolygu gwaith Amgen Rhondda Ltd o fonitro nwyon tirlenwi ar y safle ac oddi yno<br><br>i. Penodwyd Cyngor yr Amgylchedd i gynnal ymarfer sgôpio â'r carfannau perthnasol i wella'r modd y gall y bobl leol gael gafael ar wybodaeth amgylcheddol sy'n hawdd i'w deall. Ar hyn o bryd mae Cyngor yr Amgylchedd yn cysylltu â'r carfannau perthnasol i drafod eu safbwyntiau<br><br>ii. Mae'r EAW wedi prynu offer ychwanegol ar gyfer monitro ansawdd yr aer (offer cludadwy a labordy symudol) gyda'r arian a gafodd gan Lywodraeth y Cynulliad. Er mwyn sicrhau eu bod yn gallu darparu data dibynadwy, mae'r cyfleusterau monitro symudol yn cael eu profi ar hyn o bryd mewn amrywiaeth o leoliadau lle y mae gan yr Asiantaeth raglenni monitro a sefydlwyd ers tro. Pan fydd y treialu wedi dod i ben, bydd yr offer yn cael ei ddefnyddio mewn mannau allweddol ledled Cymru. Disgwylir y bydd Nantygwyddon yn cael ei fonitro yn ystod tymor yr haf 2003<br><br>iii. Mae EAW yn cysylltu â RhCT ac Amgen Rhondda Ltd i ddatblygu protocol integredig ar gyfer monitro a chofnodi. Diben y protocol yw gwneud yn siwr bod ein rhaglenni monitro yn rhoi'r wybodaeth orau sydd ar gael i'r bobl leol". |

| | | |
|---|---|---|
| **3 – 2il bwynt bwled**:<br><br>trwytholch yn cael ei drin ar y safle cyn cael ei ryddhau (16.4) | Amgen Rhondda | **Mae Amgen Cymru yn adrodd fel a ganlyn :**<br><br>• "Mae trin trwytholch ar y safle yn hen amcan yn Nantygwyddon. Bydd sefydlu'r fath weithfeydd parhaol ar y safle yn ffurfio rhan ganolog o raglen adfer y safle.<br><br>• Ar hyn o bryd mae Amgen yn ymchwilio i'r dewisiadau ar gyfer trin ychydig o'r trwytholch ar y safle, fel y gallent ddechrau ar y gwaith o gyflawni'r argymhelliad hwn". |
| **3 – 3ydd pwynt bwled**:<br><br>casglu a rheoli dwr daear nes y llwyddir i blannu llystyfiant ar y safle (16.5) | Amgen Rhondda | **Mae Amgen Cymru yn adrodd fel a ganlyn :**<br><br>• "Mae'r argymhelliad hwn yn ddatganiad o ddyletswydd gyfreithiol Amgen o dan y Ddeddf Adnoddau Dwr.<br><br>• Mae rheoli'r dwr daear yn rhan hanfodol o gynnal a chadw'r safle ac mae gwaith ar y gweill i wella'r modd y mae'r dwr daear yn cael ei ddraenio". |

| | | |
|---|---|---|
| **4** -bod astudiaethau iechyd penodol yn cael eu comisiynu mewn perthynas ag unigolion/ dos/sylwedd(au) gan samplu/ profi a dadansoddi gwaed, wrin a braster. Dylai'r canlyniadau gael eu cyhoeddi, ynghyd â sylwadau annibynnol gan arbenigwyr, cyn gynted ag y bo modd. Mae angen gwneud y profion a'r dadansoddiadau hyn yng nghyd-destun data am lygredd amgylcheddol a data am lygredd sy'n benodol i'r safle. Dylid mynd ati i geisio plotio pwysau geni isel yng nghyffiniau Nantygwyddon cyn gynted ag y bod modd (16.6) | **Llywodraeth Cynulliad Cymru**<br><br>**CAMAU I'W CYMRYD:**<br><br>**Iechyd y Cyhoedd (PH)** | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br><br>• Mae Prif Swyddog Meddygol y Cynulliad wedi cyfarfod ag aelodau RANT i drafod cynigion cychwynnol i ddatblygu'r argymhelliad hwn, gan gynnwys seminar arfaethedig yn yr Hydref.<br><br>• Mae trafodaethau yn cael eu cynnal â Chofrestrfa'r Asiantaeth dros Afiechydon a Sylweddau Gwenwynig (ATSDR) yn Atlanta, UDA, i archwilio i'r cynigion iddynt gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni'r argymhelliad hwn.<br><br>• Bydd Canolfan Iechyd Cymru (Cysgodol) a Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru yn rhan o'r gwaith i gyflawni'r argymhelliad hwn |
| **5** -unwaith y bydd y wybodaeth ariannol am weithgareddau masnachol a materion contractiol Rhondda Waste Disposal Ltd. ar gael i Gyngor Bwrdeistraf Sirol Rhondda Cynon Taf, eu bod yn cael eu harchwilio'n fanwl iawn, ac os daw unrhyw dystiolaeth am gamweithredu i'w amlwg, y dylid mynd ar drywydd y mater yn egnïol fel y bo unigolion yn cael eu dal i gyfrif am yr hyn a wnaethant ac na wnaethant wrth arfer stiwardiaeth ar arian cyhoeddus (16.12) | RhCT | **Mae RhCT yn adrodd fel a ganlyn :**<br><br>• "Rydym yn cynnal trafodaethau cynhyrchiol â'r Gweinyddydd i ddirwyn materion ariannol Rhondda Waste Disposal Ltd. i ben. Er bod camau breision wedi eu cymryd i ddod i gytundeb o ran pennu'r sefyllfa vis a vis y Cyngor, mae'r Gweinyddydd yn parhau i negodi â nifer o grwpiau eraill sydd â diddordeb. Unwaith y daw'r cwmni i ben yn ffurfiol, mae'r Cyngor wedi ei gwneud hi'n glir i'r Gweinyddydd ei fod am weld a chraffu ar yr holl ffeiliau a dogfennau sydd ganddo sy'n ymwneud â Rhondda Waste Disposal Ltd." |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **6** - bod y Cynulliad Cenedlaethol yn dosbarthu canllawiau gorfodol i Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru er mwyn ei gwneud yn ofynnol iddi fod mor agored a thryloyw ag a ganiateir o dan y ddeddfwriaeth bresennol. At hynny, dylai bwyso ar lywodraeth y DU i gefnogi'r hawl i bobl gael gwybodaeth am yr amgylchedd yn gyffredinol, ac yn sicr i ddileu "cyfrinachedd masnachol" fel rhywbeth sy'n fodd i osgoi bod yn atebol i'r cyhoedd (16.7). | **Cynulliad**<br><br>**Cenedlaethol**<br><br>**Cymru**<br><br>**<u>CAMAU I'W CYMRYD:</u>**<br><br>**<u>E1/3</u>** | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br><br>• Ar 29 Mai, bu Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth yn ystyried canllawiau statudol drafft sy'n ymwneud ag amcanion a chyfraniad Asiantaeth yr Amgylchedd i ddatblygu cynaliadwy.<br><br>• Mae'r canllawiau'n cynnwys gofyniad i'r Asiantaeth gynnal ei gwaith mewn modd agored a thryloyw gan gydymffurfio'n llwyr â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol a chodau ymarfer sy'n ymwneud â hawl y cyhoedd i weld gwybodaeth amgylcheddol a gwybodaeth yn gyffredinol, ac i sicrhau bod cymaint o wybodaeth ar gael ag a ganiateir gan ddeddfwriaeth.<br><br>• Daw'r ymgynghoriad i ben ar 18 Gorffennaf.<br><br>• Mae'r Gweinidog dros yr Amgylchedd yn codi'r mater o gyfrinachedd masnachol a bod yn atebol i'r cyhoedd gyda Gweinidog Amgylchedd y DU, a bydd yn trafod y mater gydag ef y tro nesaf y byddant yn cyfarfod. Bydd unrhyw newid yn y gyfraith yn fater i Lywodraeth y DU |

| | | |
|---|---|---|
| **7 – Pwynt Bwled 1af:**<br><br>bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sut orau y gellir defnyddio asesiadau ffurfiol o effaith (amgylcheddol, iechyd ac ariannol) yng Nghymru i roi'r ystyriaeth briodol i oblygiadau cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff (16.14) | **Cynulliad**<br><br>**Cenedlaethol**<br><br>**Cymru**<br><br>**CAMAU I'W CYMRYD:**<br><br>**E3/P4/PH** | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br><br>• Mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar ffyrdd o sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi, gydol y drefn gynllunio, i oblygiadau iechyd posibl sy'n deillio o'r datblygiadau arfaethedig.<br><br>• Bydd y gwaith hwn yn ystyried goblygiadau hyn i feysydd polisi ac i systemau eraill ar gyfer rhoi caniatâd [ee dulliau integredig o atal a rheoli llygredd - (IPPC), ac arfarniadau/ asesiadau strategol ffurfiol o'r effaith ym meysydd yr amgylchedd, iechyd, ac yn ariannol ].<br>• Bydd y Cabinet yn ystyried y cynigion interim ar droad y flwyddyn.<br>• Mae Pwyllgor yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Iechyd wedi derbyn adroddiad ar hynt y gwaith.<br>• Disgwylir y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ger eu bron yn y Flwyddyn Newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:** |
| **7 – 2il bwynt bwled:**<br><br>ystyried sut orau i sicrhau bod yr egwyddor mai cyfrifoldeb y cynhyrchwyr yw lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff yng Nghymru yn cael ei mabwysiadu (16.6) | **Cynulliad**<br><br>**Cenedlaethol**<br><br>**Cymru**<br><br>**CAMAU I'W CYMRYD:**<br><br>**E3/WPSU** | • Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trafod materion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb y cynhyrchwyr gyda DEFRA, y DTI a charfannau eraill, er mwyn gwneud y cynhyrchwyr yn atebol i Gyfeirebau'r CE, ac i fod yn gyfrifol am, ee, Cerbydau ar Ddiwedd eu Hoes (ELV) ac offer electronig, trydanol a gwastraff (WEEE). Mae Cyfeirebau tebyg eraill hefyd yn cael eu hystyried.<br><br>• Ar 14 Mehefin 2002, cyhoeddwyd Strategaeth Gwastraff Genedlaethol Cymru, "Yn Gall Gyda Gwastraff". Mae'n cynnwys targedau i'r awdurdodau lleol yng Nghymru a fydd yn eu hannog i leihau'r gwastraff a gesglir ganddynt a chynyddu'r lefelau'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio. Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys targedau ar gyfer lleihau gwastraff ac ailgylchu mwy o wastraff.<br><br>• Mae Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2002 yn cynyddu'r targedau ar gyfer y cwmnïau sy'n atebol i'r rheoliadau hyn, i ailddefnyddio 58% o wastraff deunydd pacio ac ailgylchu o leiaf 19% o bob deunydd. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **8** - bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried sut y gall cymunedau geisio ymchwil annibynnol ac arfarniad o beryglon iechyd er mwyn tawelu eu hofnau ac ymateb i ddiffyg gweithredu neu fethiant ar ran y cyrff rheoliadol/diogelu iechyd (16.15). | **Cynulliad**<br>**Cenedlaethol**<br>**Cymru**<br>**CAMAU I'W CYMRYD:**<br>**PH/E3** | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br>• Sefydlwyd Canolfan Iechyd Cymru (Cysgodol) ar 1 Mehefin 2002 o fewn Ymddiriedolaeth GIG Felindre, hyd nes iddi gael ei sefydlu yn statudol.<br>• Os daw'r Mesur GIG (Cymru) yn ddeddf, yna bydd yn caniatau i Ganolfan Iechyd Cymru gael ei sefydlu ar sail statudol.<br>• Bydd Canolfan Iechyd Cymru yn gorff ymchwil, ymgynghori a hyfforddi annibynnol i hwyluso partneriaethau o fewn y Cynulliad a'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol ac academaidd |
| **9** – Pwynt bwled 1af<br>bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi'r egwyddor o fod yn atebol i'r cyhoedd am "bwrs y wlad" (16.8) | **Llywodraeth Cynulliad**<br>**Cymru** | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br>• Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno â'r datganiad hwn. |

| | | |
|---|---|---|
| **9** – 2il bwynt bwled<br><br>bod y Cynulliad Cenedlaethol yn rhoi ystyriaeth i bwy sy'n atebol am ddiogelu ffeiliau pan fwriedir diddymu awdurdod cyhoeddus, gan wella'r atebolrwydd hwnnw (16.9); | **Llywodraeth Cynulliad**<br><br>**Cymru** | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br><br>• Mae Erthygl 6 o Orchymyn Ad-drefnu Llywodraeth Leol (Cymru) (Eiddo) 1996 a gyflwynwyd dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1995, yn nodi bod eiddo i'r hen awdurdod, yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod newydd. Mae Erthygl 7(1) yn nodi bod hyn yn cynnwys cofnodion.<br><br>• Mae'r Prif Swyddog Meddygol wedi cytuno i bwysleisio i Gyfarwyddwr GIG Cymru pa mor bwysig yw sicrhau bod ffeiliau'r awdurdodau iechyd yn cael eu cadw a'u bod ar gael i'r cyrff olynol eu gweld |

| | | |
|---|---|---|
| **9** – 3ydd bwled<br><br>bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal adolygiad o feini prawf grantiau'r UE, ac o'r prosesau archwilio ac ad-dalu os yw ased a gafodd gymorth grant yn cael ei drosglwyddo heb fudd ariannol i'r cyhoedd (16.11) | **Llywodraeth Cynulliad**<br><br>**Cymru** | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br><br>• Y Comisiwn Ewropeaidd sydd yn bennaf gyfrifol am y modd y mae rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn cael eu gweithredu. Mae'r rhaglenni Ewropeaidd yn rhedeg am nifer penodol o flynyddoedd ac mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn eu hadolygu'n gyson i'w gwneud yn fwy effeithlon. Maent wedi cyflwyno rheoliadau newydd ar gyfer gweithredu'r rownd o raglenni presennol am y cyfnod 2000-06.<br><br>• Mae'r rheoliadau ar ddewis prosiectau a pha rai sy'n gymwys wedi newid yn sylweddol ers 1991 ac maent yn awr yn rhan o'r dogfennau rhaglennu.<br><br>• Bellach, mae'r gofynion rheoli ariannol yn llymach a chyflwynwyd rheolau newydd ar drosglwyddo asedau.<br><br>• Yn awr, cyfrifoldeb WEFO yw rheoli taliadau Ewropeaidd. Rhoddwyd adnoddau ychwanegol i WEFO i leihau'r amser y mae'n ei gymryd i brosesu ceisiadau am daliadau. O ganlyniad, mae ceisiadau ERDF dan y rhaglenni diweddaraf yn cymryd ryw 4 wythnos i'w prosesu ar hyn o bryd. Serch hynny, rhaid i'r holl geisiadau ariannol gael eu hardystio'n annibynnol gan archwilwyr allanol y sefydliadau. Mae hyn yn ddibynnol ar y ffaith bod y cyrff dan sylw yn cyflwyno'u ceisiadau terfynol i'w harchwilwyr iddynt gael eu hardystio. Dim ond pan fydd y Cynulliad yn derbyn y cais ardystiedig y bydd yn rhoi'r taliad olaf ac yn rhyddhau unrhyw arian a gadwyd wrth gefn.<br><br>• Fel a nodir uchod, mae'r Comisiwn wedi gwneud y gofynion ar gyfer cronfeydd Ewropeaidd yn fwy llym dros y blynyddoedd diweddaraf, yn arbennig ym maes rheoli ariannol, a diwygiwyd y gweithdrefnau i gwrdd â'r gofynion hynny.<br><br>• Fel y Swyddfa Gymreig o'i blaen, rhaid i holl weithdrefnau WEFO hefyd gael eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cynulliad ei hun, Llys Archwilwyr Ewrop a'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar yr argymhellion a wnaed gan yr archwilwyr hynny. Er enghraifft, yn dilyn argymhelliad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol cyflwynwyd trefn ardystio flynyddol ym 1998. |

| | | |
|---|---|---|
| **10** - bod y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried, o safbwynt hawliau dynol, oblygiadau'r ffaith bod cyrff cyhoeddus neu led-gyhoeddus yn defnyddio sancsiynau cyfreithiol i ffrwyno gweithgareddau swyddogion mudiadau megis RANT sy'n trefnu protestiadau yn erbyn y cyrff hynny (16.13). | **Llywodraeth Cynulliad**<br><br>**Cymru** | **Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn adrodd fel a ganlyn:**<br><br>• Ers 1 Hydref 2002, mae'r fframwaith lle penderfynir ar y fath achosion wedi newid yn sylfaenol yn ngoleuni'r Ddeddf Hawliau Dynol 1998 (a ddaeth i rym ar y dyddiad hwnnw).<br><br>• Nawr, rhaid i gyrff cyhoeddus a chyrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus (gan gynnwys y llysoedd) weithredu hawliau'r confensiwn, gan gynnwys y rheini sy'n diogelu'r cartref, rhyddid barn a'r rhyddid i ymgynnull.<br><br>• Nid yw'r hawliau hyn yn ddiamod, a rhaid i bob achos unigol bwyso a mesur yr hawliau hyn ochr yn ochr â hawliau eraill a buddiannau'r gymdeithas yn gyffredinol.<br><br>• Felly ni all y Cynulliad Cenedlaetho ragweld sut y bydd dadleuon penodol yn cael eu ddatrys ac ni all ychwaith warantu unrhyw ganlyniad terfynol, ond yn awr gellid gwyntyllu materion fel y gallu i brotestio'n effeithiol yn erbyn gweithgareddau anghymdeithasol mewn modd na fu'n bosibl cyn hyn. |